**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-765
Ein cyf/Our ref KW/00836/17

Mike Hedges AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

25 Mai 2017

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 23 Mai am Ddeiseb P-05-765, ynghylch cadw’r canllawiau presennol ar gyfer cynulliadau crefyddol/ addoli ar y cyd.

Hoffwn ddiolch ichi am roi cyfle imi roi fy safbwyntiau cyn i'r Pwyllgor Deisebau ystyried y ddeiseb yn ffurfiol.

Fy marn i ar addoli ar y cyd yw y dylai fod yn sensitif i'r amrywiaeth o gredoau a'r rheini nad oes ganddynt gredoau o fewn yr ysgol, ac y dylai roi'r cyfle i ddisgyblion addoli, heb eu hannog i wneud rhywbeth sy'n groes i ddysgeidiaeth eu crefydd neu eu credoau eu hunain. Er enghraifft, gallai cyfnodau o weddi fod yn benagored i ddisgyblion gael adrodd eu gweddïau eu hunain yn dawel neu ystyried materion moesol neu athronyddol.

Mae’r gofynion deddfwriaethol penodol o ran addoli ar y cyd mewn ysgolion wedi’u nodi yn Adran 70 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, sy’n nodi bod yn rhaid cynnal sesiwn addoli ar y cyd bob dydd, ac yn Atodlen 20 Deddf Addysg 1996, sy’n amlinellu natur addoli ar y cyd.

Mater i ysgolion unigol yw mynd ati i gynllunio a chyflwyno sesiynau addoli ar y cyd. Mae'r gyfraith yn nodi y dylai'r rhan fwyaf o sesiynau addoli ar y cyd fod o natur gyfangwbl led-Gristnogol neu led-Gristnogol yn bennaf ac, felly, mae'n dderbyniol cynnal sesiwn addoli ar y cyd yn achlysurol nad yw'n amlwg gysylltiedig â'r ffydd Gristnogol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gall rhieni wneud cais i'w plentyn gael ei dynnu allan o sesiynau addoli ar y cyd a rhaid i ysgolion gytuno i geisiadau o'r fath bob amser.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education